

Yr Hendy, Llanedi & Fforest

CYNLLUN DATBLYGU CYMUNED · Ionawr 2015



Parc Yr Hendy

Partner providers are shown in brackets - see list for details

Amcan Un: Gwella iechyd a lles pobl o fewn y gymuned

1:1 LLWYBRAU CERDDED

- 1.1.1 Cynnal a gwella'r rhwydwaith mynediad sy'n bodoli eisoes i safon dda a darparu gwell arwyddion. **Yn barhaus**
- 1.1.2 Cydweithio gyda Swyddog Mynediad y Cyngor Sir ynglyn â datblygu llwybrau cerdded a llwybrau ceffylau newydd gydag arwyddion priodol a gwybodaeth. Ceisio am grantiau i gefnogi'r rhaglen hon. (CC)
Heol Clayton i Heol Iscoed Gorffennaf 2013, eraill i ddilyn
- 1.1.3 Cychwyn rhaglen dreigl o sicrhau bod llwybrau yn hygyrch i ddefnyddwyr anabl. **O Gorffennaf 2016**
- 1.1.4 Darparu map/dehongliad o lwybrau cerdded a llwybrau ceffylau a fydd ar gael i drigolion ac ymwelwyr ar wefan y Cyngor Cymuned.
Dyddiad targed: Hydref 2015
- 1.1.5 Gwella'r mynediad llwybr i Rodfa'r Wiwer ar gyfer cadeiriau gwthio, pramiau a chadeiriau olwyn. **Dyddiad targed: Mai 2016**

1:2 PARC YR HENDY

- 1.2.1 Cwblhau Cam Un yr adferiad **Medi 2010**
- 1.2.2 Cam Dau - grantiau wedi eu sicrhau i adeiladu Man Chwarae Aml Defnydd (CC; grantiau). **Dyddiad Cwblhau - Haf 2013**
- 1.2.3 Sicrhau grantiau i barhau gyda Cham Tri, yn unol â'r Uwchgynllun Cytunedig. (CC, LVG)
Dyddiad targed ar gyfer cwblhau Mawrth 2016
- 1.2.4 Gwella a diweraddu'r ystod o offer chwarae addas ar gyfer plant o bob oed. **Rhaglen dreigl o Mehefin 2015**
- 1.2.5 Gwella'r cyfleusterau sydd ar gael a'u cynnal ym Mharciau Y Fforest a Llanedi. **Rhaglen dreigl o Hydref 2014**
- 1.2.6 Yn dilyn polisi y Cyngor Sir, ar Trosglwyddo Asedion, cael y brydles neu'r rhydd-ddeiliad gweddill parc yr Hendy. (LVG)
Dyddiad targed: Cyn diwedd 2015
- 1.2.7 Ar ol ymgynghori gyda mudiadau a chymdeithasau lleol a ddefnyddwyr y parc, adolygu cam pedwar o'r Cynllun Datblygu.
Dyddiad targed: Chwefror 2015

1.3 CAEL GWARED AR FAW CŴN

- 1.3.1 Parciau i fod yn ardaloedd ble mae rhaid i gŵn fod ar dennyn. Gosod arwyddion dwyieithog yn rhybuddio am gosbau posib.
Dyddiad targed: Hydref 2015
- 1.3.2 Gosod ffens o gwmpas man chwarae'r plant - Parc Yr Hendy.
Dyddiad targed: Mehefin 2015
- 1.3.3 Cyflogi Warden Cŵn Rhan-amser gyda'r awdurdod ganddo i gwyno a chychwyn achos erlyniad. Rhoi gwybod i drigolion am hyn. (CC) **Dyddiad targed: i gychwyn Gorffennaf 2015**

1:4 CYSGODFEYDD BWS

- 1.4.1 Derbyn cyfrifoldeb o'r Cyngor Sir am gysgodfeydd bws yn Sgwâr y Fforest, Y Ceffyl Du, Sgwâr yr Hendy, Talyclun a Llanedi. **Yn barhaus o Ionawr 2013**
- 1.4.2 Gosod cyllideb ar gyfer glanhau, trwsio a chynnal y cysgodfeydd bws. **Yn flynyddol, gan ddechrau yn 2013**

1:5 GOFAL IECHYD

- 1.5.1 Ymgyrchu i gynnal a gwella gwasanaethau gofal iechyd yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli. **Yn barhaus**
- 1.5.2 Sefydlu cofrestr Gofalu Amdanat TI (Care 4U) wirfoddol o bobl fethedig ac anabl sy'n byw ar eu pennau eu hunain.
Dyddiad targed ar gyfer cychwyn Mai 2015
- 1.5.3 Yn deillio o (1.5.2) ceisio am grantiau i dalu am ymweliadau cyswllt â'r cartref gan wirfoddolwyr, yn cynnwys costau ymchwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (C.R.B.)
Dyddiad targed: o Awst 2015
- 1.5.4 Adolygu'r gwasanaethau bws sydd ar gael i'r ysbtyai, yn enwedig i Gaerfyrddin, o ystyried y newidiadau arfaethedig yn narpriaeth gwasanaethau gofal iechyd.
Yn barhaus o Dachwedd 2013

Amcan Dau:

Cynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd lleol

2

2:1 ARDDANGOSFEYDD BLODAU

- 2.1.1 Darparu a chynnal y bocsys blodau yn eu lleoliadau presennol.
Yn barhaus
- 2.1.2 Plannu blodau mewn lleoliadau newydd.
Yn barhaus
- 2.1.3 Datblygu cynllun torri gwair gofalus ar ymylon ffyrdd sy'n eiddo i'r Cyngor a manau eraill fydd yn annog tyfiant planhigion/blodau gwyllt.
Dyddiad targed: Yn flynyddol o 2013
- 2.1.4 Cydweithio gyda staff y Cyngor Sir sy'n arbenigo mewn bywyd gwyllt a chynladwyedd i gynnal arolygon blynyddol o amrywiaeth rywogaethau a chynefinoedd. (CC)
Targed: o Orffennaf

2014

- 2.1.5 Datblygu'r morfa yn yr aber y tu hwnt i'r cae criced ar gyfer hamddena ac astudio ffawna a fflora. (HCC, NRW)
Targed: o Wanwyr 2017

2:2 SEDDAU AR GYFER Y CYHOEDD

- 2.2.1 Darparu a chynnal meinciau ar gyfer y cyhoedd yn Heol y Geibren, Heol Y Fforest, Sgwâr Yr Hendy, Talyclun, Llanedi a Heol-y-Parc.
Yn barhaus

Amcan Tri:

Hyrwyddo diogelwch ar y ffordd

3

3:1 PALMENTYDD

- 3.1.1 Gweithio mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Caerfyrddin i wella safon a diogelwch palmentydd. (CC)
Parhaus o Ionawr 2014
- 3.1.2 Cydweithio gydag Awdurdod y Priffyrdd a'r Heddlu i leihau'r rhwystrau i gerddwyr ar y palmentydd gan gerbydau sydd wedi eu parcio'n anghyfreithlon. (DPP, HA, CC)
Parhaus o Ionawr 2013

3:2 CYFLYMDER TRAFNIDIAETH

- 3.2.1 Cydweithio gyda'r Heddlu, y Cyngor Sir ac Awdurdod y Priffyrdd i osod mesurau tawelu traffig i leihau cyflymder yn enwedig ar Heol Y Fforest, Heol Llanedi, Heol Caerfyrddin a Heol Iscoed.
Parhaus o Fedi 2012

3:3 DIOGELWCH PLANT

- 3.3.1 Cefnogi datblygiad pellach y "Llwybrau Diogel i'r Ysgol"
Parhaus o Ebrill 2009
- 3.3.2 Archwilio i'r gwerth posib o osod Croesfan Sebra y tu allan i Ysgol Yr Hendy a/neu'r Swyddfa Bost a Sgwar Yr Hendy.
O Ebrill 2015

3:4 PARCIO

- 3.4.1 Cefnogi ceisiadau am barcio ar gyfer "Trigolion yn Unig" mewn lleoliadau ble mae eu hangen, i ddechrau gyda Heol Bryngwili a Heol-y-Parc.
Yn barhaus o Fedi 2013

Amcan Pedwar:

Darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau cymunedol

4



4:1 YR YSTAFELL DDARLLEN

- 4.1.1 Caffael y Brydles ar gyfer yr Ystafell Ddarllen.
Dyddiad Targed: Ebrill 2013
- 4.1.2 Paratoi Cynllun Busnes ar gyfer adfer yr Ystafell Ddarllen.
Dyddiad targed: Mawrth 2014
- 4.1.3 Darparu pump uned gyfrifiadurol gyda mynediad i'r rhyngwrwyd, fel modd i hyfforddi a chefnogi unigolion sy'n chwilio am waith. Rhoddir blaenoriaeth i bobl dan bump ar hugain oed. (JCP; grantiau).
Dyddiad targed: O Fawrth 2015

- 4.1.4 Darparu cyfleusterau i ganiatáu i bobl leol gwrdd â'i gilydd a chymdeithasu - bydd amrywiaeth o bapurau newydd a chylchgronau ar gael. (CHH)
Dyddiad targed: O Fehefin 2015 ymlaen

- 4.1.5 Annog defnydd o'r adeiladau ar gyfer gweithgareddau grŵp bach e.e. gyrfa chwist, clybiau Prifysgol y Drydedd Oes, grwpiau rhieni a phlant bach.
Dyddiad targed: O Fai 2015 ymlaen

- 4.1.6 Cynnig yr ystafell am ddim at ddefnydd cyn-aelodau o'r Lluedd Arfog fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i Gyfamod Cymunedol y Lluedd Arfog. (CC)
Dyddiad targed: O Ionawr 2015 ymlaen

4:2 CANOLFAN GYMUNEDOL AML-BWRPAS

- 4.2.1 Ail-gychwyn trafodaethau gyda chynrychiolwyr Clwb Criced Yr Hendy i drafod ail-ddefnyddio'r cyfleusterau presennol, yn seiliedig ar y cynllun a gyflwynwyd am ystyriaeth yn y lle cyntaf yn 2011 Mae'r cynllun hwn yn cynnig cefnogaeth y Cyngor i:-
Ddatrys problemau draenio'r prif ardaloedd chwarae.

Adeiladu cyfleuster newydd yn lle'r clwb presennol, i gynnwys cyfleusterau newid newydd, bar a loffa, ystafell adloniant a neuadd fawr aml-bwrpas ar gyfer y gymuned.
Dyddiad Targed: O Dachwedd 2014 ymlaen

4:3 CYMORTH GRANT I GRWPIAU CYMUNEDOL

- 4.3.1 Parhau i roddi cymorth grant i Aelwyd yr Urdd.
Yn barhaus
- 4.3.2 Parhau i roddi cymorth grant i eglwysi a chapeli lleol.
Yn barhaus



Llanedi

Amcan Pump:

Darparu a gwella cyfleusterau ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff

5:1 CYMDEITHAS CHWARAEON YR HENDY A LLANEDI

- 5.1.1 Sefydlu Cymdeithas Chwaraeon Yr Hendy, Fforest a Llanedi, Bydd y Gymdeithas yn cynnwys cynrychiolwyr o Glwb Rygbi'r Hendy, Clwb Criced yr Hendy, Clwb Pêl-droed Yr Hendy a Chyngor y Gymuned.
Dyddiad targed: Cyfarfod Sefydlu cyn diwedd Ebrill 2015
- 5.1.2 Gosod targedau ar gyfer ceisiadau grant o Sportslot a chyrrff eraill sy'n cyflwyno grantiau, i wella ac ymestyn cyfleusterau. (SL, grantiau)
Dyddiad targed: o Chwefror 2015

- 5.1.3 Gosod targedau ar gyfer datblygu cyfleusterau newydd - tenis, bowls a chwaraeon eraill. (LHFSa).
O Ebrill 2015
- 5.1.4 Penodi Swyddog Datblygu Chwaraeon rhan-amser (mewn cydweithrediad â Chyngorau eraill) i hyrwyddo cyflawniad y targedau uchod. (PTC, LCC)
Dyddiad targed: O Fedi 2015
- 5.1.5 Blaenoriaethu datblygiad cyfleusterau a chyfluoedd chwaraeon i ferched. (LHFSa)
O Fedi 2015

Amcan Chwech:

Gwella cyfathrebu o fewn y gymuned



- 6.1.1 Sefydlu 'Papur Bro' dwyieithog i roi cyhoeddusrwydd i waith y Cyngor a grwpiau lleol eraill ac i roi gwybodaeth ar weithgareddau o fewn y gymuned.
Dyddiad targed: Hydref 2015
- 6.1.2 Datblygu a chynnal gwefan ryngweithiol leol i'w rheoli gan grŵp o wirfoddolwyr lleol.
Dyddiad targed: Hydref 2014
- 6.1.3 Cynnal hysbysfyrddau i'r cyhoedd yn Sgwar y Fforest a Sgwar Yr Hendy a chymell defnydd ohonynt gan gymdeithasau lleol.
Yn barhaus
- 6.1.4 Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn bob pum mlynedd ac yn seiliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd, adolygu Cynllun Datblygu'r Gymuned.
Dyddiad targed: Ebrill/Mai 2017
- 6.1.5 Cyhoeddi dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd Cyngor y Gymuned yn y Llanelli Star, Gwefan y Gymuned, Papur Bro a hysbysfyrddau ac annog y cyhoedd i fynychu'r cyfarfodydd.
Dyddiad targed: O Hydref 2014

Amcan Saith: Cadw cymeriad a threftadaeth ein cymuned

7.1 CYNLLUNIO A MATERION ERAILL

- 7.1.1 Craffu ac, os oes angen, gwrthwynebu ceisiadau cynllunio os ystyrir nad ydynt yn cydweddu â, neu eu bod yn niweidiol i, ansawdd bywyd o fewn ein cymuned. **Yn barhaus**
- 7.1.2 Ymgrychu (gydag eraill) i atal cynlluniau am ffracio a nwyeddio glo yng Nghilfach Tywyn (Aber Llchwyr). **Yn barhaus o Ebrill 2013**
- 7.1.3 Parhau i gefnogi Pwyllgor Carnifal Pontarddulais a'r Ardal. **Yn barhaus**
- 7.1.4 Parhau i gydnabod llwyddiannau ein pobl ifainc drwy Wobr Flynyddol Terry Price. **Yn barhaus**
- 7.1.5 Parhau i wrthwynebu codi mwy o dyrbinau gwynt ar Fynydd-y-Gwair. **Yn barhaus**

7.2 HANES LLEOL

- 7.2.1 Sefydlu 'Bwrdd Hanes' ar safle'r hen bwl nofio. (HSS)
Dyddiad targed: Mawrth 2016
- 7.2.2 Darparu arddangosfa barhaol ar hanes lleol yn yr Ystafell Ddarllen yn rhoi manylion hanes y pentref. (HSS)
Dyddiad targed: Mai 2016
- 7.2.3 Sefydlu archif ar-lein, fel rhan o strategaeth gyfathrebu'r Cyngor (6.1 and 6.2) sy'n rhoi manylion am gymeriadau a digwyddiadau arwyddocaol yn hanes y gymuned. (HSS)
Dyddiad targed: Mehefin 2016
- 7.2.4 Paratoi 'Taith Hanesyddol' o gwmpas y pentref i alluogi trigolion ac ymwelwyr gael ymwybyddiaeth o'r bobl a'r digwyddiadau o bwys a restrir yn 7.2.3
Dyddiad targed: Hydref 2016
- 7.2.4 Sefydlu cofeb barhaol sy'n deyrnged i bersonél lleol y lluoedd arfog a gollodd eu bywydau wrth wasanaethu'u gwlad.
Dyddiad targed: Hydref 2016

Amcan Wyth: Gwella cyfleoedd addysg

- 8.1.1 Cefnogi llywodraethwyr a rhieni Ysgol Llanedi i'w chadw ar agor. (LPS) **Yn barhaus**
- 8.2.2 Cefnogi llywodraethwyr a rhieni Ysgol Yr Hendy yn eu hymdrech i gael adeilad newydd addas at ei bwrpas yn yr 21 ganrif yn lle'r adeilad diffygiol ac annigonol presennol. **Yn barhaus**
- 8.3.3 Defnyddio'r adnoddau T.G yn yr Ystafell Ddarllen i annog a chynorthwyo oedolion o ddysgwyr ddatblygu sgiliau newydd, yn enwedig y sgiliau hynny fydd yn eu cynorthwyo i gael gwaith. **O Ebrill 2015 ymlaen**

Gwobr Llwyddiant Ieuencid Terry Price

Mae Cyngor Cymuned Llanedi yn dymuno cydnabod a dathlu llwyddiannau pobl ifainc sy'n byw o fewn ei ardal - pentrefi Tycroes, Llanedi, Y Fforest a'r Hendy (yn cynnwys Talyclun). Mae'r Cyngor, felly, wedi sefydlu gwobr a gyflwynir yn flynyddol i berson ifanc o dan 25 oed, a ystyrir i fod yn deilwng o gydnabyddiaeth am ei (l)lwyddiant personol.

Cyflwynir y wobr am lwyddiant personol nodedig mewn unrhyw faes, yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) y canlynol:

Chwaraeon: yn cynnwys pob gêm tîm, athletau, chwaraeon neu weithgareddau unigol (megis golff, pysgota), mewn gair unrhyw beth a gydnabyddir fel gornest chwaraeon cystadleuol.

Y Celfyddydau Creadigol a Mynegiannol: yn cynnwys drama, ysgrifennu, cerddoriaeth, celf, crefftau ac unrhyw weithgaredd creadigol arall.

Gweithgareddau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Chymunedol: yn cynnwys gweithgareddau sy'n gwella'r amgylchedd lleol a bywydau pobl o fewn y gymuned (e.e. gweithred unigol neu weithgarwch yn cynnig cymorth neu garedigrwydd at eraill, megis cynorthwyo'r methodig neu'r rhai dan anfantais neu ofalu am aelod anabl o'r teulu).

Llwyddiant Academaidd: yn cynnwys llwyddiant eithriadol mewn arholiadau cyhoeddus neu fesur cyfatebol arall o lwyddiant a chynnydd arwyddocaol mewn goresgyn anawsterau penodol personol, megis afiechyd, anabledd neu anfanteision a rhwystrau eraill i lwyddiant.



Sgwâr Fforest

Partner providers shown in brackets:

CC - Carmarthenshire County Council
CHH - Clwb Henoed yr Hendy
DPP - Dyfed Powys Police
HA - Highways Authority
EMC - Environment Management Contractor
HCC - Hendy Cricket Club
HHS - Hendy History Society
HPS - Hendy Primary School

JCP - Job Centre Plus, Llanelli;
LCC - Llangennech Community Council
LHFSA - Llanedi, Hendy and Fforest Sports Association;
LPS - Llanedi Primary School
LVG - Local Voluntary Groups;
NRW - Natural Resources Wales
PCC - Pontarddulais and District Carnival Committee;
PTC - Pontarddulais Town Council
SL - Sportslot